DEDDF RHENTU CARTREFI (CYMRU) 2016

EXPLANATORY NOTES

SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

Rhan 4 - Cyflwr Anheddau

Pennod 2 – Cyflwr Anheddau

Adran 99 – Hawliau meddianwyr a ganiateir i orfodi'r Bennod

273. Os yw'r adran hon wedi ei hymgorffori fel un o delerau'r contract heb ei haddasu, yn ychwanegol at ddeiliad y contract, caiff unrhyw un y caniateir iddo feddiannu'r annedd, sy'n dioddef o ganlyniad i fethiant y landlord i gydymffurfio â'r rhwymedigaethau o ran ffitrwydd i bobl fyw ac atgyweiriadau, hefyd ddod ag achos llys yn erbyn y landlord yn ei hawl ei hun. Diffinnir 'meddiannydd a ganiateir' yn adran 244.